



Annwyl Syr/Fadam

Swyddfa Bost® Caereithin
557 Heol Pentregethin, Ravenhill, Abertawe, SA5 8AD

Penderfyniad yn dilyn Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol

Rwy'n ysgrifennu atoch i gadarnhau y byddwn yn bwrw ymlaen â'n cynllun i symud y gangen uchod i The Chocolate Box, 143-145, Heol Ravenhill, Ravenhill, Abertawe, SA5 5AH lle caiff ei rhedeg yn un o'n un o'n prif ganghennau ffasiwn newydd.

Cawsom 4 o ymatebion unigol gan gwsmeriaid yn ystod y cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus lleol. Roedd y prif adborth yn ymwneud ag argaeledd parcio a rhwyddineb mynd i mewn i'r lleoliad newydd. Roedd sylwadau eraill yn ymwneud â staff a gwasanaethau yn y lleoliad newydd. Bu'r adborth hwn yn fodd i mi ddeall pryderon y cwsmeriaid yn well a gwneud yn siŵr fod pob gwybodaeth o'r fath yn cael ystyriaeth cyn gwneud penderfyniad terfynol ar gyfer y gangen newydd.

Mae'n amlwg fod y Swyddfa Bost yn chwarae rhan bwysig ym mywydau cwsmeriaid, yn enwedig y bobl hŷn a phobl anabl, ac rydym am wneud ein gwasanaethau mor hygyrch â phosibl. Wrth fynedfa'r adeilad, mae ramp â chanllaw. Y tu mewn, bydd y brif gangen Swyddfa'r Post ffasiwn newydd yn bodloni ein gofynion am safon uchel. Bydd yn cynnwys dau fan gwasanaeth â sgrin, ynghyd â chyfleusterau lefel-isel. Byddwn yn cydweithio'n glos â'r gweithredydd wrth ddylunio'r gangen newydd i wneud yn siŵr fod yna ddigon o le a digon o breifatrwydd y tu mewn i gwsmeriaid Swyddfa'r Post a bod y fynedfa a'r lle y tu mewn i'r siop, gan gynnwys y llwybrau a'r manau ciwio, yn cael eu cadw'n rhydd rhag rhwystrau. Bydd hyn yn golygu y bydd cownter Swyddfa'r Post yn hawdd ei gyrchu ac y bydd pawb, gan gynnwys defnyddiwr cadair olwyn, â digon o le i symud o gwmpas.

Yn ogystal, bydd yna drydydd man gwasanaeth Swyddfa'r Post wrth dil y siop, lle bydd y rhan fwyaf o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ar gael ochr yn ochr â'r trafodion manwerth. Bydd y man gwasanaeth hwn ar agor drwy gydol oriau agor y siop, a bydd yn cynnig oriau hirach na chownter y brif Swyddfa Bost, gan roi cyfle i gwsmeriaid ymweld â'r Swyddfa Bost pan fydd yn fwy cyfleus iddynt. Mae'n golygu hefyd na fydd pobl yn gorfod ymuno â chiw'r brif Swyddfa Bost bob tro, a bydd hyn yn help i leihau'r amser aros wrth y prif gownter. Hefyd, gall cwsmeriaid gael yr ystod lawn o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post yn Swyddfa Bost Heol Conwy. Mae'r manylion llawn am y gangen newydd ar gael ar ddiwedd y llythyr hwn.

Rwyf wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'n cynllun gwreiddiol, yr adborth a gafwyd yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r effaith ar drigolion lleol a'r gymuned ehangach. Wedi cael golwg ar y mynediad i gerddwyr a cherbydau i'r safle newydd, rwy'n ffyddiog fod y gangen newydd mewn lleoliad cyfleus ac y bydd y ffordd newydd hon o gynnig gwasanaethau Swyddfa'r Post yn dal i ddiwallu anghenion cwsmeriaid ac, ar yr un pryd, yn help i roi dyfodol hirdymor cynaliadwy i wasanaeth Swyddfa'r Post yn y gymuned leol.

Bydd y gangen bresennol yn cau am 17:30 ddydd Mercher 25 Hydref 2017, a bydd y gangen newydd yn agor yn The Chocolate Box, 143-145 Heol Ravenhill, ddydd Iau 26 Hydref 2017 am 13:00. Os bydd rhaid newid y dyddiadau hyn, am resymau na ellir eu rhagweld ar hyn o bryd, bydd posteri'n cael eu gosod yn y gangen er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid. Yn ystod y cyfnod trosglwyddo, gall cwsmeriaid ddefnyddio unrhyw wasanaeth Swyddfa'r Post arall sy'n gyfleus. Isod, fe welwch fanylion am gangen Swyddfa'r Post gyfagos:

- Swyddfa Bost Heol Conwy, 30 Heol Conwy, Gorllewin Morgannwg, SA5 7BD

Mae copi o'r llythyr hwn ar gael hefyd ar ein gwefan yn postofficeviews.co.uk. Wrth gyrraedd y wefan, gofynnir ichi gofnodi'r cod ar gyfer y gangen hon: **16664299**

Mae'r newid hwn i rwydwaith Swyddfa'r Post yn cael ei wneud yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer newidiadau i'r rhwydwaith, yn ôl yr hyn a gytunwyd â chorff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr. Mae copi llawn o'r Cod Ymarfer ar gael trwy fynd i'n gwefan yn www.postofficeviews.co.uk, neu gallwch gael copi wrth gysylltu â ni yn y cyfeiriad ar ddiwedd y llythyr hwn.

Diolch ichi am ystyried ein cynllun. Mawr obeithiwn y byddwch chi a'n cwsmeriaid yn dal i gefnogi eich prif gangen Swyddfa'r Post newydd.

Yr eiddoch yn gywir



Suzanne Richardson
Rheolwraig Rhwydwaith Rhanbarthol

Sut i gysylltu â ni:

- 🖨️ postofficeviews.co.uk
- 📧 comments@postoffice.co.uk
- ☎️ Llinell Gymorth: 03457 22 33 44
Ffôn testun: 03457 22 33 55
- ✉️ FREEPOST Your Comments
Sylwch taw hwn yw'r cyfeiriad llawn ac nad oes angen rhagor o fanylion.

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd ar-lein. I'w gweld, sganiwch yma.

Os nad oes gennych sganiwr cod QR ar eich ffôn, gallwch gael hyd i un yn eich storfa app.



I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu Braille, byddwchystal â chysylltu â'r Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 03457 66 01 15 neu Ffôn Testun 03457 22 33 55.

Manylion am y gwasanaeth newydd:

Taflen wybodaeth Swyddfa Bost Caereithin															
Cyfeiriad	The Chocolate Box 143-145 Heol Ravenhill Ravenhill Abertawe SA5 5AH														
Oriau agor y Swyddfa Bost	<table border="1"> <tr><td>Llun</td><td>09:00 - 17:30</td></tr> <tr><td>Maw</td><td>09:00 - 17:30</td></tr> <tr><td>Mer</td><td>09:00 - 17:30</td></tr> <tr><td>Iau</td><td>09:00 - 17:30</td></tr> <tr><td>Gwen</td><td>09:00 - 17:30</td></tr> <tr><td>Sad</td><td>09:00 - 17:30</td></tr> <tr><td>Sul</td><td>Ar gau</td></tr> </table>	Llun	09:00 - 17:30	Maw	09:00 - 17:30	Mer	09:00 - 17:30	Iau	09:00 - 17:30	Gwen	09:00 - 17:30	Sad	09:00 - 17:30	Sul	Ar gau
Llun	09:00 - 17:30														
Maw	09:00 - 17:30														
Mer	09:00 - 17:30														
Iau	09:00 - 17:30														
Gwen	09:00 - 17:30														
Sad	09:00 - 17:30														
Sul	Ar gau														
Oriau Agor newydd y gwasanaeth Swyddfa'r Post wrth gownter y siop	<table border="1"> <tr><td>Llun-Sad</td><td>08:30 - 18:00</td></tr> <tr><td>Sul</td><td>Ar gau</td></tr> </table>	Llun-Sad	08:30 - 18:00	Sul	Ar gau										
Llun-Sad	08:30 - 18:00														
Sul	Ar gau														
Pellter	100 metr o'r gangen bresennol, ar hyd tir gwastad.														
Cynhyrchion a Gwasanaethau	Byddai'r un dewis eang o gynhyrchion a gwasanaethau ar gael o hyd.														
Mannau gwasanaeth	Bydd yna dri man gwasanaeth, sef dau fan â sgrin, a man gwasanaeth Swyddfa'r Post wrth gownter y siop, a fydd ar gael yn ystod oriau agor y siop.														
Hygyrchedd a Gwaith hygyrchedd	<p>Mynediad a chyfleusterau Mae'r mynediad trwy gyfrwng ramp a chanllaw. Y tu mewn, bydd dolen glyw, cownter gwasanaeth isel a lle i gadair olwyn.</p> <p>Parcio/Bysiau Mae modd parcio wrth ymyl y ffordd y tu allan i'r adeilad newydd.</p>														
Y Siop	Cardiau a deunydd cyfathrebu														
Dyddiad yr Adleoliad	13:00 ddydd Iau 26 Hydref 2017														